



Creu Portffolio

Diben

Mae'n ofynnol bod pob meddyg yn cadw portffolio cywir a chyfredol mewn rhyw ffurf fel rhan o'u datblygiad gyrfa. Ym mhob cyfnod o'u gyrfa, gall y portffolio chwarae rôl wrth ddethol ar gyfer hyfforddiant arbenigol, symud ymlaen trwy hyfforddiant neu aiddilysu ar gyfer ymarfer.

Os ydych mewn swydd hyfforddiant Sylfaen yn y Deyrnas Unedig, byddwch yn cael mynediad at e-bortffolio electronig (TURAS) pan gewch eich penodi i'r Rhaglen Sylfaen.

Os ydych yn Hyfforddai Arbenigedd, byddwch yn cynnal portffolio a bennir gan y Coleg Brenhinol. Bydd gwahanol ofynion a fformatau ar gyfer pob arbenigedd ac asesir hynny ar-lein gan banel ARCP blynyddol.

Mae ar feddygon sylfaen angen cyflwyno'r E-bortffolio cyfan, neu ran ohono, fel rhan o'r broses gyfweled ar gyfer hyfforddiant arbenigol yn achos y rhan fwyaf o raglenni hyfforddi. Fel arfer, bydd un o adrannau'r cyfweled yn cynnwys asesu'r portffolio a bydd hynny'n cyfrif tuag at sgôr gyffredinol y cyfweled. Yn y cam hwn, rhaid i'r cyfan neu ran ohono gael ei lawrlwytho i fersiwn bapur a'i gyflwyno yn y cyfweled.

Strwythur

Pennir strwythur portffolio hyfforddiant gan y rhaglen yr ydych yn ei dilyn a'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer ei hasesu, ond mae'n dal yn bwysig "personoli" a gwneud iddo sefyll allan, yn enwedig ar gyfer recriwtio. Mae penawdau safonol y gellir eu defnyddio os nad yw meddygon yn dilyn rhaglen gymeradwy ac mae arweiniad ar hyn ar gael ar wefan Oriol.

Gellir lawrlwytho'r portffolio Sylfaen a'i drefnu o dan y penawdau presennol. Gallwch ei ymestyn ymhellach drwy ychwanegu cynnwys fel adfyfyrodau, ffotograffau, cyflawniadau, diddordebau y tu hwnt i feddygaeth.

Sut bynnag y byddwch yn trefnu'ch portffolio, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod yr adrannau wedi'u gwahanu a'u mynegeo a bod y deunydd yn drefnus. Mae hyn yn ddatganiad cadarnhaol amdanoch chi a bydd yn gwneud gwaith y panel yn haws.

Cynnwys

Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth o symud ymlaen, ac mae angen cynnwys pethau megis CEXs bach, DOPs, posteri, cynadleddau, ymchwil ac archwiliadau. Bydd angen hefyd i dystysgrifau gwreiddiol (Gradd Feddygol, Aelodaeth o'r Colegau Brenhinol, cymwysterau eraill e.e. MRCP) gael eu cynnwys neu eu lanlwytho.

Mae'n ddefnyddiol felly i chi gasglu'r rhain wrth symud ymlaen a rhoi'r cyfan yn ei le, fel bod bylchau tystiolaeth yn dod i'r amlwg. Gall gadael y gwaith o gynnal y portffolio tan y funud olaf arwain at adael pethau allan a cholli cyfle i ymdrin â meysydd gwannach.

Mae'r portffolio yn gofnod tystiolaeth ond mae hefyd yn offeryn ar gyfer adfyfrio, felly dylech gynnwys astudiaethau achos am eich hyfforddiant sy'n tynnu sylw at feysydd ymarfer da. Mae adfyfrio ynghylch digwyddiadau critigol hefyd yn dangos sut rydych wedi dysgu o sefyllfaoedd heriol ac wedi meddwl beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Mae hyn yn dangos eich bod nid yn unig yn gweithio drwy'r broses o



hyfforddiant meddygol, ond hefyd yn dysgu ac yn rhoi sylw i'ch profiadau.

Pwyntiau allweddol ynghylch portffolios:

Mae'r portffolio yn gofnod o'ch hyfforddiant ac nid yw'n ymarferiad ticio blychau. Mae proses ail-ddilysu'r GMC wedi ymgorffori'r portffolio ymarfer parhaus fel rhan bwysig o'r broses ddysgu gydol oes ac offeryn adfyfrio ar gyfer pob meddyg, o'r hyfforddeion iau i'r uwch ymgynghorwyr.

Awgrymiadau Ardderchog ar gyfer Meddygon Sylfaen:

- Y nod yw cynnwys amser yn eich wythnos waith er mwyn sicrhau eich bod yn casglu ac yn lanlwytho'r dystiolaeth ofynnol o hyfforddiant.
- Gweithwch ar fyfrio – dewch o hyd i “gyfaill” myfyrio a helpu eich gilydd i ddatblygu achosion a straeon. Mae'n aml yn haws ystyried profiadau yng nghwmni “ffrind beirniadol”.
- Meddyliwch yn ôl i'ch cyflawniadau pwysig yn yr ysgol feddygol a chofiwch gynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'ch dewisiadau gyrfa.
- Os ydych yn ystyried arbenigedd penodol, dewch o hyd i gyfleoedd i gynhyrchu dystiolaeth sy'n dangos bod gennych ddi-ddordeb gwirioneddol yn y llwybr gyrfa hwn e.e. sgysiau, cynadleddau, poster. Dylech gynnwys hyn mewn portffolio cyfweliad arbenigol (ond cofiwch arddangos gwahanol bethau ar gyfer gwahanol arbenigeddau!).
- Edrychwch ar wefannau recriwtio'r Coleg Brenhinol am Ganllawiau i Ymgeiswyr. Dysgwch beth yn union sy'n ddisgwyliedig yn eich cyfweliad – efallai na fydd angen portffolio copi caled o gwbl ar rai, ac mae'n bosibl y

bydd rhai yn gofyn am rai eitemau yn unig. Hefyd, edrychwch ar

ganllawiau ar gyfer hunanasesu tystiolaeth. Bydd rhai arbenigeddau yn gofyn i chi roi sgôr i'ch portffolio yn unol â meini prawf ac yna byddwch yn trafod eich sgôr yn y cyfweliad.

- Peidiwch â meddwl am eich portffolio fel rhywbeth y byddwch wedi gorffen ymwneud ag ef ar ôl F2 - bydd angen y cyfan ohono a mwy arnoch chi wrth i chi symud ymlaen gyda'ch gyrfa feddygol.
- Os byddwch chi'n treulio amser mewn gweithgaredd neu rôl arall cyn gwneud cais am Hyfforddiant Arbenigol, daliwch ati i ychwanegu at eich portffolio. Gall hyn gynnwys gwaith locwm, teithio dramor, astudio pellach, gwirfoddoli ac ati.
- Gofalwch eich bod wedi lawrlwytho popeth i gopi caled cyn bod eich mynediad i'r e-Portffolio Sylfaen yn dod i ben.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae arweiniad pellach ar gyfer yr e-bortffolio Sylfaen i'w gael yn:

<https://turasportfoliowales.nes.digital/>

I weld awgrymiadau ardderchog ynghylch sefydlu a chynnal portffolio, edrychwch yn “Developing your health career”:

www.healthcareers.nhs.uk/

Mae cronfa adnoddau Oriol yn cynnwys arweiniad ar baratoi portffolio ar gyfer cyfweliadau Hyfforddiant Arbenigol:

www.oriel.nhs.uk/Web/ResourceBank